

COFNODION Y CYFARFOD

Dyddiad: Dydd Mawrth 17 Hydref 2000

Amser: 8.30am

Lle: Ystafell y Llywydd (A3.13)

Presennol: William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol, Cadeirydd
Y Llywydd
Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
David Melding, Grŵp y Ceidwadwyr
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc i'r Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc i'r Pwyllgor Busnes
Andrew George, Darpar Clerc i'r Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

1. Ymddiheuriadau

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.2 Yr oedd Jocelyn Davies yn bresennol fel Rheolwr Busnes grŵp Plaid Cymru. Nes y byddai'n cael ei hethol yn y cyfarfod llawn yn y prynhawn, byddai'n bresennol yn lle Ieuan Wyn Jones o dan Reol Sefydlog 13.3. Yn ogystal, yr oedd David Melding yn bresennol o dan Reol Sefydlog 13.3 yn lle William Graham gan fod y Llywydd wedi gofyn iddo gadeirio'r cyfarfod yn lle'r Dirprwy Lywydd, a oedd yn absennol, yn unol â Rheol Sefydlog 13.4.

1.3 Cofnododd y Pwyllgor ei ddiolch i Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes, gan mai dyma'i chyfarfod olaf. Croesawyd Andrew George, ei holynydd.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

BC273-00 (drafft)

2.1 Awgrymwyd rhai gwelliannau. Byddent yn cael eu hymgorffori a'u hailgyflwyno i'r Pwyllgor ar ffurf fersiwn terfynol a fyddai'n cael ei gyhoeddi.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.2** – Byddai'r cynnig ynghylch rhannu briffiau ariannol y Cabinet ag Aelodau sy'n bwriadu cynnig gwelliannau i gynigion a allai effeithio ar flaenraglen waith y Pwyllgorau yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cabinet llawn. Byddai'r Trefnydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu: Y Trefnydd

3.2 **Paragraff 3.4** – Byddai'r Trefnydd yn cyflwyno barn Prif Weinidog Cymru am newid trefn ei sesiwn holi yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Y Trefnydd**

3.3 **Paragraff 3.5** – Cafwyd ar ddeall fod Jane Davidson, Cyn-gadeirydd y Pwyllgor, wedi ysgrifennu at J Barry Jones, Canolfan Llywodraethu Cymru. Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'n briodol mynd ar drywydd y cynnig hwn nes y byddai Dirprwy Lywydd newydd/Cadeirydd newydd y Pwyllgor Busnes yn cael ei ethol.

3.4 **Paragraff 7.7** – Byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn cyflwyno papur ar swyddogaethau a dyddiadau cyhoeddi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno**

4. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

4.1 Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion o'r cyfarfod llawn.

5. Cyngor i'r Cynulliad am weithdrefnau

5.1 Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes ystyried papur BC262-00 ynghylch nodi am faint o'r gloch yr oedd cyfarfodydd llawn i orffen ar fore dydd lau yn y Rheolau Sefydlog, gan wneud hynny erbyn y cyfarfod ar 24 Hydref.

5.2 Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried posibiladau o ran wythnosau etholaeth y Nadolig gyda'u grwpiau ac adrodd yn ôl (BC258-00, BC 185-00 a B157-00). Dywedodd y Trefnydd fod y Grŵp Llafur yn ystyried y mater mewn cyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Dywedodd Jocelyn Davies fod Plaid Cymru hefyd yn ystyried y mater yn eu cyfarfod grŵp. Dywedodd Jenny Randerson nad oedd ei grŵp hithau wedi newid ei farn, sef ei fod yn ffafrio opsiwn dau ym mhapur BC157-00. Er hynny, byddai ei grŵp yn cadw at yr hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Busnes ac ni fyddai'n beirniadu'r penderfyniad hwnnw. Yr oedd William Graham wedi rhoi barn Grŵp y Ceidwadwyr drwy'r e-bost, sef y dylem gadarnhau'r penderfyniad a wnaed eisoes gan y Pwyllgor – hynny yw, 4 wythnos. Dywedodd y Llywydd ei fod yn ffafrio pedair wythnos gan ei fod yn rhoi cyfle i'r staff gael gwyliau yn ystod y pythefnos yn y canol. Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn trafod y mater y tu allan i'r Pwyllgor er mwyn medru cytuno ar y mater hwn cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

5.3 Yr oedd y Pwyllgor wedi ystyried papur BC272-00 ynghylch yr wythnosau etholaeth arfaethedig yn 2001. Ers hynny, yr oedd papur pellach a oedd yn rhoi manylion dyddiadau gwyliau Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei ddsbarthu. Gofynnwyd i'r Rheolwyr Busnes leisio'u barn yn y cyfarfod yr wythnos wedyn. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes i ystyried y mater**

6. Pwyllgorau

6.1 Yr oedd Marie Knox wedi cynnig y byddai'r Rheolwyr Busnes, o bosibl, yn dymuno ystyried ateb dros dro ar gyfer ailethol i'r pwyllgorau pwnc presennol

gan newid eu portffolios (hynny yw, y ddau bwyllgor 'addysg') a'u teitlau. Byddai hyn yn rhoi sail gyfreithiol i waith y pwyllgorau yn ystod y cyfnod pan fyddai'r grwpiau yn ystyried aelodaeth a chadeiryddion y pwyllgorau pwnc. Cytunwyd y byddai'r awgrym yn ateb dros dro defnyddiol pe bai oedi wrth gytuno ar aelodaeth newydd y pwyllgorau. Dywedodd y Trefnydd na fyddai'n gallu cyflwyno unrhyw gynigion ar gyfer ailethol tan ddydd Mawrth 24 Hydref.

6.2 Yn ogystal, dywedodd y Trefnydd y byddai'r grwpiau yn cynnal adolygiad eang o aelodaeth y pwyllgorau. Ychwanegodd David Melding y byddai angen rhoi sylw i benodi Cadeiryddion y pwyllgorau pwnc. Nodwyd bod nifer y cadeiryddion o bob Plaid yn cael ei bennu yn ôl cydbwysedd y pleidiau, a hynny yn unol â'r Ddeddf. Gan hynny, ni fyddai'n bosibl newid cyfran y Cadeiryddion o bob plaid.

7. Busnes at y dyfodol

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC276-00). Amlinellodd y Trefnydd fanylion rhai gwelliannau.

Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn ar 23 a 30 Hydref a 6 Tachwedd 2000

7.2 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd am ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn ar 23 a 30 Hydref a 6 Tachwedd oedd y dylai fynd rhagddo yn unol â'r datganiad busnes drafft diwygiedig.

Busnes yr wythnos hon

7.3 Dywedodd y Trefnydd fod dadl Plaid Leiafrifol y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cael ei thynnu'n ôl. Cadarnhaodd Jocelyn Davies nad oedd Plaid Cymru yn dymuno cael estyniad i'r awr a roddwyd iddynt hwy, a thrwy wneud hynny, llenwi'r awr ychwanegol. Dosbarthodd Craig Stephenson bapur BC277-00 a oedd yn ymdrin â sut i rannu dadleuon y pleidiau lleiafrifol, gan fod y Rheolwyr Busnes wedi cytuno i'w ystyried. **Gweithredu: Rheolwyr Busnes**

7.4 Dywedodd y Trefnydd y byddai Prif Weinidog Cymru yn gwneud datganiad am aildrefnu'r Cabinet yng nghyfarfod llawn y prynhawn. Wedyn, byddai'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn gwneud datganiad am y swyddi a gollwyd yn ffatri Sony, Pen-coed.

7.5 Cyferiodd y Llywydd at y sail statudol ar gyfer y termau Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Cynulliad, a mynegodd ei barodrwydd i ddefnyddio'r termau newydd Prif Weinidog a Gweinidogion mewn cyfarfodydd llawn. Diolchodd y Trefnydd iddo, gan ddweud y byddai'r termau Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Cynulliad yn cael eu defnyddio mewn dogfennau cyfreithiol gan mai dyna a ddynodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylid ystyried diwygio'r adran yn y Rheolau Sefydlog ar ddehongli. Byddai Ysgrifenyddiaeth y Siambr yn dosbarthu'r geiriad arfaethedig i'r Rheolwyr Busnes. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

7.6 Dywedodd David Melding y byddai ei grŵp yn gwrthwynebu'r bwriad i enwebu Rosemary Butler yn Ddirprwy Lywydd gan ei ei fod o'r farn bod hynny'n estyniad i'r aildrefnu ar y Cabinet, ac y gallai ei hethol godi amheuan yn y dyfodol ynghylch a oedd deiliad y swydd yn ddiuedd. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn cytuno â'r farn a leisiwyd gan David Melding.

7.7 Mynegodd Jocelyn Davies ei phryder bod y ddadl am yr Asesiad Safonol o Wariant wedi'i thynnu'n ôl. Ymddiheurodd y Trefnydd am beidio â hysbysu Rheolwyr Busnes y Pleidiau o hyn yn gynt, a dywedodd y byddai'n ceisio osgoi oedi o'r fath yn y dyfodol. Er hynny, yr oedd o'r farn na fyddai'n briodol cynnal y ddadl cyn y ddadl am gyllideb y Cynulliad.

7.8 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau yn ateb cwestiynau a gafodd eu cyflwyno i'w hateb gan Peter Law ddydd Iau 19 Hydref. Ychwanegodd y byddai'n edrych ar neilltuo amserau penodol ar gyfer cwestiynau i Weinidogion y Cabinet.

8. Is-ddeddfwriaeth

8.1. Dim.

9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog

9.1 Dim.

10. Dyfarniadau gan y Llywydd

10.1 Dim.

11. Unrhyw fusnes arall

11.1 Dim.

YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR